THE INSOLVENCY SERVICE
www.insolvency.gov.uk

Mewn partneriaeth â
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE
hmcs

Delio â Dyled

Sut i ddeisebu am eich methdaliad eich hun

CHARTER MARK
CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE

INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys

1	Ble allaf fi gael cyngor am fethdaliad?	4
2	Beth yw'r dewisiadau yn lle methdaliad?	4
3	Sut fyddaf fi'n deisebu am fy methdaliad?	4
4	Faint fydd gwneud fy hun yn fethdalwr yn ei gostio?	5
5	I ba lys ddylwn i fynd?	6
6	Beth fydd yn digwydd yn y llys?	6
7	Pwy fydd yn delio â fy methdaliad?	6
8	Beth yw fy nyletswyddau fel methdalwr?	7
9	Pryd fydd fy methdaliad yn dod i ben?	7
10	Ble allaf fi gael rhagor o wybodaeth?	7
11	Pa gymorth ychwanegol sydd ar gael i ddefnyddwyr sydd ag anabledd?	8
12	Termau ansolfedd	8
Atodiad A	Sefydliadau a all helpu	9

Mae'r daflen hon yn cynnwys y cwestiynau rydych yn fwyaf tebygol o'u gofyn ynglyn â bod mewn dyled a gwneud eich hun yn fethdalwr, ac mae'n esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir mewn methdaliad (gweler adran 12). Mae'n rhoi gwybodaeth ynglyn â sut a ble i wneud cais am eich methdaliad eich hun. Os bydd credydwr yn ceisio'ch gwneud yn fethdalwr, neu os bydd arnoch angen mwy o wybodaeth am fethdaliad, dylech gyfeirio at y llyfryn 'Canllaw i Fethdaliad' (gweler adran 10 am fanylion ble y gallwch gael y llyfryn hwn). Mae methdaliad yn fater difrifol. Does dim rhaid i chi fod yn fethdalwr dim ond am eich bod mewn dyled. Gall dewisiadau eraill fod yn fwy addas i chi.

1. Ble allaf fi gael cyngor am fethdaliad?

Cyn i chi gymryd unrhyw gamau i wneud cais am eich methdaliad eich hun, dylech gael eich cyngor cyfreithiol neu ariannol eich hun ynglyn â methdaliad a'r dewisiadau eraill sydd ar gael i chi. Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd na'r llysoedd roi cyngor i chi am unrhyw broblemau ansolfedd penodol; er enghraifft, a ddylech fynd yn fethdalwr neu a ddylai eich cwmni gael ei ddatod, neu a ddylech edrych ar ddewisiadau eraill. Dylech gael cyngor annibynnol. Gallwch holi cyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig, ymarferydd ansolfedd wedi ei awdurdodi neu gynghorydd ariannol dibynadwy. Neu gallech holi un neu fwy o'r sefydliadau yn Atodiad A. Ond peidiwch ag oedi'n rhy hir, neu gallech weld bod cynghorwyr annibynnol yn methu helpu am fod pethau wedi mynd yn rhy bell.

2. Beth yw'r dewisiadau yn lle methdaliad?

Dyma'r dewisiadau eraill yn lle methdaliad:

- Trefniant anffurfiol - Gallech ystyried ysgrifennu at eich holl gredydwyr i weld a allwch gyfaddawdu. Cynhwyswch amserlen pryd fyddwch yn eu talu'n ôl.
- Trefniant gwirfoddol unigol - Fersiwn ffurfiol yw hon o'r trefniant a ddisgrifiwyd eisoes. Byddai angen i chi wneud cais i'r llys gyda chymorth ymarferydd ansolfedd sydd wedi ei awdurdodi. Byddai ef neu hi'n goruchwylio'r trefniant ac yn talu'ch credydwyr yn unol â'r cynigion sy'n cael eu derbyn.
- Gorchmynion gweinyddu - Os bydd gan un neu ragor o'ch credydwyr ddyfarniad llys yn eich erbyn ac os yw cyfanswm eich dyledion yn £5,000 neu lai, gallai'r llys sirol wneud gorchymyn gweinyddu. Dan orchymyn gweinyddu, byddwch yn rhoi taliadau rheolaidd i'r llys, a fydd wedyn yn talu'ch credydwyr. Tra byddwch yn talu'r gorchymyn gweinyddu, ni all eich credydwyr gymryd unrhyw gamau pellach yn eich erbyn i gael eu harian, heb yn gyntaf ofyn i'r llys. Ac ni fydd rhaid i chi dalu unrhyw log ar eich dyledion. Bydd rhaid i chi dalu ffi am orchymyn gweinyddu, ond caiff hwnnw ei ychwanegu at yr arian sydd eisoes yn ddyledus arnoch ac ni chaiff ei godi ar wahân.

Mae manylion pellach am yr opsiynau hyn ac effeithiau methdaliad i'w gweld yn llyfryn Y Gwasanaeth Ansolfedd – 'Alternatives to Bankruptcy'.

3. Sut fyddaf fi'n deisebu am fy methdaliad?

Yn gyntaf, bydd angen i chi lenwi'r ffurflenni dilynol. Gallwch gael y ffurflenni'n rhad ac am ddim mewn llys lleol sy'n delio â methdaliad. Gallwch hefyd lenwi'r ffurflen ar-lein neu argraffu'r ffurflenni sydd ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn: www.insolvency.gov.uk

- Y ddeiseb (Rheolau Ansolfedd 1986 ffurflen 6.27) - hon yw eich ffurflen gais i'r Llys i'ch gwneud yn fethdalwr ac mae'n cynnwys y rhesymau dros eich cais.
- Y datganiad materion (Rheolau Ansolfedd 1986 ffurflen 6.28) - mae'r ffurflen hon yn dangos eich holl asedion (unrhyw beth sy'n eiddo i chi y gellir ei ddefnyddio i dalu'ch dyledion) a'ch holl ddyledion, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau'r credydwyr a'r swm sydd arnoch i bob un. Mae'r ffurflen yn cynnwys datganiad ansolfedd y bydd angen i chi ei dyngu ar lw gerbron un o swyddogion y llys neu gyfreithiwr. Efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi ychwanegol am hyn (gweler adran 4.)

Gallwch lenwi'r ddwy ffurflen uchod ar-lein drwy Wasanaeth Ffurflenni Ar-lein y Gwasanaeth Ansolfedd. Gwasanaeth rhyngrwyd rhyngweithiol yw hwn y gellir troi ato ar adeg ac mewn

lle sy'n gyfleus i chi drwy wefan y Gwasanaeth Ansolfedd, www.insolvency.gov.uk. Dilynwch y cysylltiad “Do It Online” o'r dudalen hafan.

Mae'r Gwasanaeth Ffurflenni Ar-lein yn hawdd ei ddefnyddio ac mae'n rhoi cymorth i chi allu llenwi'r ffurflenni eich hun. Mae yna hefyd linell deleffon benodol ar gyfer ymholiadau a chyfeiriad e-bost os bydd arnoch angen cymorth pellach wrth lenwi'r ffurflenni. Mae'r Gwasanaeth Ffurflenni Ar-lein yn caniatáu i chi gadw ac adfer ffurflenni sydd wedi eu llenwi'n rhannol, a gallu golygu gwybodaeth sydd eisoes wedi ei chadw.

Wedyn bydd cronfa ddata ddiogel yn sicrhau'r wybodaeth a rowch yn y ffurflenni. Caiff y wybodaeth hon ei dileu'n awtomatig os na chyflwynwch eich deiseb methdaliad i'r Llys cyn pen chwe mis, ond os gwneir gorchymyn methdaliad, bydd y wybodaeth ar gael i'r Gwasanaeth Ansolfedd. Gall hyn leihau'r angen i'r derbynnydd swyddogol ofyn i chi am wybodaeth ychwanegol.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflenni, bydd angen i chi eu hargraffu a mynd â nhw i'r llys.

Os na fyddwch yn defnyddio’r Gwasanaeth Ffurflenni Ar-lein, dylech lenwi'r ddeiseb a'r ffurflenni datganiad materion mewn priflythrennau, gan ddefnyddio inc du. Gall staff y llys roi cyngor i chi am drefn y llys yn unig a rhoi'r ffurflenni angenrheidiol i chi. Ni fyddan nhw'n gallu rhoi cyngor cyfreithiol i chi.

Os byddwch yn delio â llys sirol, bydd angen i'r llys gael y ffurflenni wedi eu llenwi a 2 gopi o bob un cyn y gall dderbyn eich deiseb am fethdaliad. Os byddwch yn mynd â'ch deiseb i'r Uchel Lys, ni fydd angen unrhyw gopïau ychwanegol. Ar ôl i chi lenwi'r ddwy ffurflen, ac argraffu'r ffurflenni os byddwch wedi defnyddio'r Gwasanaeth Ffurflenni Ar-lein, llofnodi gwaelod pob dalen a'i dyddio, a chael y ffioedd yn barod, gallwch fynd at y llys a gofyn iddo ddelio â'ch deiseb.

DS: Os ydych neu os oeddech yn rhedeg busnes mewn partneriaeth (hyd yn oed os nad oes cytundeb partneriaeth ffurfiol) a phob un o'r partneriaid am gael ei wneud yn fethdalwr, bydd arnoch angen ffurflenni deiseb a datganiad materion gwahanol. Mae'r rhain i'w cael yn eich llys lleol.

4. Faint fydd gwneud fy hun yn fethdalwr yn ei gostio?

Efallai y bydd rhaid i chi dalu 3 ffi wrth fynd â'ch deiseb a'ch datganiad materion i'r llys:

- Ffi y llys o £150. Mewn rhai amgylchiadau gall y llys anwybyddu'r ffi hwn; er enghraifft, os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm. Os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys i gael gostyngiad yn y ffi neu a fyddwch yn cael eich rhyddhau rhag talu'r ffi, bydd staff y llys yn gallu dweud wrthych.
- Y blaendal o £345 tuag at gostau gweinyddu'ch methdaliad. Caiff y blaendal hwn ei ad-dalu ym mhob achos.
- Y ffi i dyngu'r datganiad materion. Mewn llys sirol, ni chodir tâl am dyngu'r affidafid hwn, sy'n rhan o'r datganiad materion. Ond yn yr Uchel Lys neu gerbron cyfreithiwr, codir tâl o £7.

Os ydych yn bâr priod ac yn gwneud cais eich dau am fethdaliad, bydd yn rhaid i chi'ch dau dalu ffioedd ar wahân. Os oeddech mewn busnes fel partneriaeth, bydd yn rhaid i bob partner dalu ffioedd ar wahân oni fydd pob un o'r partneriaid yn gwneud cais am ddeiseb fethdaliad ar y cyd dan Orchymyn Partneriaethau Ansolfedd 1994 (Ffurflen 16). Mae Ffurflen 16 ar gael gan y llys neu gallwch argraffu copi o wefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn: www.insolvency.gov.uk

Dylid talu'r ffioedd uchod mewn arian parod neu archebion post, neu drwy siec cymdeithas adeiladu, banc neu gyfreithiwr. Dylai sieciau nawr gael eu gwneud yn daladwy i 'HMCS'. Ni dderbynnir sieciau personol.

5. I ba lys ddylwn i fynd?

Ni all pob llys ddelio â materion methdaliad. Gall deisebau methdaliad gael eu cyflwyno yn yr Uchel Lys yn Llundain, neu mewn llys sirol sy'n delio â materion methdaliad. Yn gyffredinol, dylech fynd â'ch deiseb am fethdaliad i'r llys sy'n delio â'r ardal lle rydych wedi byw neu wedi masnachu hiraf yn y 6 mis blaenorol. Os ydych yn byw yn ardal un llys ac yn rhedeg eich busnes yn ardal llys arall, dylech fynd at y llys sy'n delio â'r ardal lle mae eich busnes, gan fod hwnnw'n cael blaenoriaeth dros gyfeiriad eich cartref. Os nad ydych yn sicr at ba lys i fynd, dylech ffonio'ch llys sirol agosaf i gael cyngor. Mae cyfeiriad a rhif ffôn eich llys sirol lleol wedi eu rhestru dan 'Courts' yn y llyfr ffôn; dylech edrych am 'civil courts - county courts' nid llysoedd ynadon. Mae'r llysoedd fel rheol ar agor i'r cyhoedd o 10am i 4pm dydd Llun i ddydd Gwener. Bydd angen i chi gysylltu â'r llys i weld a oes ganddo awdurdodaeth i wrando achos methdaliad. Ar wefan y Gwasanaeth Llys yn www.courtservice.gov.uk mae yna restr o lysoedd sirol sydd ag awdurdodaeth methdaliad, a mynegai o lysoedd sirol a fydd yn dangos awdurdodaeth ddaearyddol pob un.

6. Beth fydd yn digwydd yn y llys?

Bydd y llys naill ai'n gwrando'ch deiseb ar unwaith neu'n trefnu amser i'r llys ei hystyried.

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf ac os bydd arnoch angen cyfieithydd, ni all y llys eich helpu i ddod o hyd i un. Bydd yn rhaid i chi wneud hynny eich hun a thalu ffioedd y cyfieithydd.

Yn y gwrandawiad gall y llys wneud un o 4 peth:

- Oedi'r achos - yn aml am fod ar y llys angen rhagor o wybodaeth cyn y gall benderfynu gwneud gorchymyn methdaliad neu beidio.
- Gwrthod y ddeiseb - hwyrach oherwydd y byddai gorchymyn gweinyddu'n fwy priodol.
- Penodi ymarferydd ansolfedd - os bydd y llys yn credu y byddai trefniant gwirfoddol unigol yn fwy priodol. Bydd hyn y bosibl dim ond os yw'ch asedion yn fwy na £4,000; eich dyledion sydd heb eu sicrhau yn llai na £40,000; a chithau heb fod yn fethdalwr a heb wneud trefniant gwirfoddol unigol yn ystod y 5 mlynedd blaenorol. Os na fyddwch am wneud trefniant felly, dylech ddweud wrth y llys.
- Gwneud gorchymyn methdaliad - Mae effaith y gorchymyn methdaliad, a'r cyfyngiadau y mae'n eu gosod arnoch, wedi eu hesbonio yn llyfryn y Gwasanaeth Ansolfedd 'Canllaw i Fethdaliad'. Byddwch yn mynd yn fethdalwr y funud y caiff y gorchymyn ei wneud gan y llys.

7. Pwy fydd yn delio â fy methdaliad?

Y derbynnydd swyddogol, sy'n was sifil yn y Gwasanaeth Ansolfedd ac yn un o swyddogion y llys, fydd yn gyfrifol am weinyddu'ch methdaliad a diogelu'ch asedion o ddyddiad y gorchymyn methdaliad. Bydd ef neu hi'n gweithredu fel eich ymddiriedolwr mewn methdaliad oni fydd y llys yn penodi ymarferydd ansolfedd i wneud y gwaith hwnnw. Mae'r ymddiriedolwr mewn methdaliad yn gyfrifol am ofalu am eich materion ariannol am y cyfnod cyn ac ar ôl eich methdaliad. Rhaid i'r derbynnydd swyddogol ddweud wrth y llys hefyd am unrhyw faterion sy'n dangos y gallwch fod wedi cyflawni troseddau mewn cysylltiad â'ch methdaliad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nhaflen y Gwasanaeth Ansolfedd - 'Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweliad gan y DS?' (gweler adran 10 am fanylion ble i gael i daflen hon.)

8. Beth yw fy nyletswyddau fel methdalwr?

Pan fydd gorchymyn methdaliad wedi ei wneud yn eich erbyn, rhaid i chi wneud y pethau canlynol:

- Darparu gwybodaeth am eich materion ariannol i'r derbynnydd swyddogol. (Bydd y llys yn rhoi cyfeiriad a rhif teleffon y derbynnydd swyddogol i chi.) Bydd angen i chi gysylltu â'r derbynnydd swyddogol cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud y gorchymyn methdaliad. Os na allwch fynd ar unwaith i swyddfa'r derbynnydd swyddogol, bydd ef neu hi'n gofyn cwestiynau i chi ar y teleffon. Efallai y bydd angen hefyd i chi gael cyfweliad yn swyddfa'r derbynnydd swyddogol yn ddiweddarach.
- Casglu a throsglwyddo'ch asedion i'r derbynnydd swyddogol, gyda'ch holl lyfrau cyfrifon, cofnodion, cyfriflenni banc, polisïau yswiriant a phapurau eraill yn ymwneud â'ch asedion a'ch dyledion.
- Dweud wrth eich ymddiriedolwr mewn methdaliad am unrhyw asedion a chodiadau mewn incwm a gewch yn ystod eich methdaliad.
- Peidio â defnyddio'ch cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu, cardiau credyd na chyfrifon tebyg ar unwaith.
- Peidio â chael credyd o £500 neu fwy gan neb heb yn gyntaf ddweud wrtho eich bod yn fethdalwr.
- Peidio â thalu'ch credydwyr yn uniongyrchol am arian a oedd yn ddyledus arnoch cyn i'r gorchymyn methdaliad gael ei wneud.

Os na fyddwch yn cydweithredu â'ch ymddiriedolwr mewn methdaliad, gallech gael eich restio.

9. Pryd fydd fy methdaliad yn dod i ben?

Yn gyffredinol, cewch eich rhyddhau o fethdaliad (a elwir yn 'rhyddhau') ar ôl dim mwy na 12 mis. Bydd y cyfnod hwnnw'n llai os bydd y derbynnydd swyddogol yn gorffen ei ymholiadau i'ch materion cyn hynny ac yn cofnodi hysbysiad yn y llys. Byddwch yn awtomatig yn rhydd o fethdaliad os bydd y llys yn diddymu'r gorchymyn methdaliad. Byddai hynny fel rheol yn digwydd pan fydd eich dyledion a'ch ffioedd a threuliau'r achos methdaliad wedi eu talu'n llawn, neu lle na ddylai'r gorchymyn methdaliad fod wedi ei wneud. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gallai eich rhyddhad gael ei ohirio. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nhaflen y Gwasanaeth Ansolfedd - 'Pryd fydd fy methdaliad yn dod i ben?'

10. Ble allaf fi gael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at gyhoeddiad y Gwasanaeth Ansolfedd - 'Canllaw i Fethdaliad'. I gael rhagor o gopïau o unrhyw gyhoeddiad gan y Gwasanaeth Ansolfedd, cysylltwch â swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol. Mae cyhoeddiadau ar gael hefyd ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Llys yn cyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau gwybodaeth yn: www.courtservice.gov.uk

Gallwch hefyd gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Ansolfedd ar gyfer ymholiadau cyffredinol am faterion ansolfedd ar 0845 602 9848; neu e-bost: insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk

11. Pa gymorth ychwanegol sydd ar gael i ddefnyddwyr sydd ag anabledd?

Os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud yn anodd i chi fynd i'r llys neu gyfathrebu, byddwch cystal â chysylltu â Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid y llys dan sylw: efallai y gall helpu. Os na all Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid y llys eich helpu, cysylltwch â Llinell Gymorth Anabledd y Gwasanaeth Llys ar 0800 358 3506 rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ni chodir tâl am alwadau i'r rhif hwn. Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth Minicom ar 0191 478 1476.

12. Termau Ansolfedd

Gorchymyn methdaliad - Gorchymyn llys i'ch gwneud yn fethdalwr.

Deiseb methdaliad - Cais a wneir (gennych chi fel dyledwr neu gan un o'ch credydwyr) i'r llys i'ch gwneud yn fethdalwr, a rhoi'r rhesymau pam.

Credydwr - rhywun y mae arnoch arian iddo.

Dyledwr - rhywun sydd ag arno arian i chi.

Dyledion - yr arian sy'n ddyledus arnoch.

Ymarferydd ansolfedd - person wedi ei awdurdodi ac sy'n arbenigo mewn ansolfedd, fel rheol yn gyfrifydd neu'n gyfreithiwr. Bydd wedi ei awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant neu gan un o nifer o gyrff proffesiynol cydnabyddedig.

i-Solv - gwefan ryngweithiol y Gwasanaeth Ansolfedd ar-lein y gallwch fynd i mewn iddi drwy wefan y Gwasanaeth, neu drwy gysylltiadau ar wefannau perthnasol eraill - lle gallwch weld nifer o ffurflenni ansolfedd a'u llenwi ar-lein.

Awdurdodaeth - awdurdod llys i ddelio ag achos cyfreithiol.

Ymddiriedolwr - Yr ymddiriedolwr mewn methdaliad yw naill ai'r derbynnydd swyddogol neu ymarferydd ansolfedd sy'n rheoli'ch asedion. Prif ddyletswyddau'r ymddiriedolwr yw gwerthu'r asedion hyn a rhannu'r arian rhwng eich credydwyr.

Credydwr heb ei sicrhau - Credydwr nad oes ganddo sicrwydd (fel morgais) am yr arian sydd arnoch.

Dyled heb ei sicrhau - dyled sy'n ddyledus i gredydwr heb ei sicrhau.

Atodiad A. Sefydliadau a all helpu

Ni allwn roi cyngor am broblemau ansolfedd penodol na materion yn ymwneud â cholli swydd; er enghraifft, a ddylech fynd yn fethdalwr, a ddylai eich cwmni gael ei ddatod, neu a ddylech edrych ar weithdrefnau ansolfedd amgen.

Ceir rhestr isod o sefydliadau sy'n rhoi cyngor rhad ac am ddim. Gall llawer o sefydliadau eraill hefyd gynghori am ansolfedd a materion yn ymwneud â cholli swydd, ond fe allant godi ffi am eu gwasanaethau. Dylech holi bob tro beth fydd y ffi hon pan fyddwch yn cysylltu â hwy. Neu efallai byddai'n well gennych geisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Rydyn ni'n argymell eich bod yn dewis gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) yr Arglwydd Ganghellor ac sydd â Marc Ansawdd CLS. Gallwch gael gwybod mwy o www.clsdirect.org.uk. Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr wybodaeth, cyngor neu wasanaethau eraill a ddarparwyd gan sefydliadau eraill.

Sefydliad	Pwy ydyn nhw	Manylion cyswllt
Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)	Corff cyhoeddus yw'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) sy'n cael ei ariannu gan drethdalwyr. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth am ddim am faterion yn ymwneud â gwaith.	Llinell gymorth: 08457 474747 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 6pm. Gwefan: www.acas.org.uk Mae yna fanylion ar wefan ACAS am swyddfeydd lleol ACAS.
Business Debtline	Mae Business Debtline yn elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaeth cynghori am ddyled am ddim ar y ffôn i'r hunangyflogedig a busnesau bach sy'n wynebu caledi ariannol. Mae cyngor am ddim, yn annibynnol a chyfrinachol.	Llinell gymorth: 0800 197 6026 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 10am - 4pm. Gwefan: www.bdl.org.uk
Cyngor Ar Bopeth (CAB)	Elusen gofrestredig yw Cyngor Ar Bopeth sy'n cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim mewn mwy na 700 o fannau ledled y DU .	Llinell gymorth: 0207 833 2181 i ddod o hyd i'ch Canolfan Cyngor Ar Bopeth leol (CAB). Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 6pm Gwefan: www.cyngorarbopeth.org.uk sy'n cynnwys cyfeiriadur o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth lleol. I gael cyngor, trowch i wefan Canllaw Cyngor CAB yn www.adviceguide.org.uk
Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS)	Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn rhedeg y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) ac yn gweinyddu'r hyn a alwyd yn flaenorol yn gymorth cyfreithiol. Mae Cyfeiriadur CLS yn rhestru cyfreithwyr ac asiantaethau cynghori yn eich ardal chi.	Llinell gymorth: 0845 345 4345 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Sul 9am - 5.30pm. Gwefan: www.clsdirect.org.uk Gallwch ddod o hyd i gynghorwr cyfreithiol a gymeradwywyd gan CLS gan ddefnyddio Cyfeiriadur CLS sydd ar gael yn eich llyfrgell leol neu ar y wefan. Mae'r wefan ar gael yn Saesneg, Cymraeg, Wrdw, Bengaleg, Tsieineeg, Pwnjabeg, Tyrceg a Gwjarati.

Sefydliad	Pwy ydyn nhw	Manylion cyswllt
Gwasanaeth Cynghori Credyd Defnyddwyr (CCCS)	Elusen gofrestredig yw CCCS sydd wedi ymroi i roi cynghori cyfrinachol am ddim a chymorth i reoli arian i deuluoedd ac unigolion sydd mewn ffwdan yn ariannol. Mae'n rhoi cyngor am drefnu arian; cyngor am ddefnyddio credyd yn ddoeth; a phan fydd yn briodol, mae'n darparu cynlluniau cyraeddadwy i ad-dalu dyledion.	Llinell gymorth: 0800 138 1111 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 8pm. Gwefan: www.cccs.co.uk
Consumer Direct	Consumer Direct yw'r gwasanaeth ffôn ac ar-lein a ariennir gan y llywodraeth sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am faterion defnyddwyr. Mae Consumer Direct yn cael ei ariannu gan y Swyddfa Masnachu Teg a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnachu Awdurdod Lleol.	Llinell gymorth: 0845 404 0506 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8am - 6.30pm. Dydd Sadwrn 9am - 1 pm. Gwefan: www.consumerdirect.gov.uk
Lawyers For Your Business (LFYB)	Menter gan Gymdeithas y Gyfraith yw LFYB sy'n cynrychioli tua 1,400 o gwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd wedi dod ynghyd i sicrhau bod busnesau, yn enwedig y rhai bach sy'n cael eu rheoli gan eu perchnogion, yn gallu cael cyngor cyfreithiol cadarn pan fydd ei angen.	Llinell gymorth: 0207 405 9075 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am - 5.30pm. Cewch restr o'r cyfreithwyr yn eich ardal sy'n aelodau (gan gynnwys gwybodaeth am feysydd gwaith arbenigol a'r ieithoedd a siaredir) a thaleb i gael sesiwn gynghori yn ddi-dâl. Gwefan: http://www.lawsociety.org.uk/choosingandusing/helpyourbusiness/foryourbusiness.law
National Debtline	Mae National Debtline yn rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim dros y ffôn i unrhyw un sy'n cael anhawster ariannol. Bydd galwyr yn cael pecyn gwybodaeth rhad ac am ddim i helpu eu hunain.	Llinell gymorth: 0808 808 4000 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am - 9pm a dydd Sadwrn 9.30am - 1pm. Gwefan: www.nationaldebtline.co.uk
Y Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS)	Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw'r Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS) sydd wedi ei sefydlu i helpu busnesau bach a darparu iddyn nhw un ffynhonnell unigol o wybodaeth a chyngor o safon.	Llinell gymorth: 0207 215 5000 Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5.30pm. Gwefan: www.sbs.gov.uk

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei diogelu gan hawlfraint y Goron. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hawlfraint y Goron yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn dull diraddiol nac mewn cyd-destun camarweiniol. Lle bo'r deunydd yn cael ei gyhoeddi neu ei roi i eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a statws yr hawlfraint. Pe byddai cyfyngiad ar atgynhyrchu, byddai unrhyw ddefnydd arfaethedig arall o'r deunydd yn amodol ar gymeradwyaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid anfon ceisiadau at Dîm Polisi Trwyddedu a Gwybodaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi, Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Ffôn: 01603 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn ymestyn i unrhyw ddeunydd yn y llyfryn hwn sy'n cael ei gydnabod fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen awdurdodiad i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Am ragor o fanylion ar drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler y canllawiau cyfredol ar http://www.opsi.gov.uk/advice/crown-copyright/copyright-guidance/index.htm a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Gallwch gael rhagor o gopiau o'r llyfryn hwn o'r wefan ganlynol:
http://www.dti.gov.uk/publications

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010 (codir y gyfradd genedlaethol am alwadau i'r rhif hwn). Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae cyhoeddiadau ar gael hefyd ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

Ebrill 2008

URN08/1006